

Gwallau Cyffredin Geiriau Tebyg



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG



Nod y sesiwn

- Adolygu rhai o'r prif rheolau iaith sydd wedi codi yn y sesiynau.
- Cyfle i drafod beth sydd ar gael i'n cynorthwyo ni wrth ysgrifennu'n Gymraeg.
- Crynhoi a chloi

Geiriau Tebyg

- Yn y Gymraeg mae'n rhaid i ni fod yn ofalus oherwydd mae gyda ni nifer fawr o eiriau sy'n debyg. Mae'n hawdd drysu rhyngddynt.
- Allwch chi feddwl am rai?
- Beth sy'n gallu newid ystyr gair?



- 
- Yn aml iawn mae aceniad neu sillafiad gair yn gallu newid ystyr gair yn llwyr, felly mae'n rhaid i ni fod yn ofalus wrth ysgrifennu yn y Gymraeg.

e.e. Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng y geiriau hyn...


rhaglenni

rhaglennu

poblogaeth

poblogaidd

Dyma rai geiriau tebyg yn y
Gymraeg...



a ac
ac ag
ar a'r â'r
a â
adnabod gwybod
bai bae

cau cae
Cymraeg Cymreig
Cymru Cymry
ei eu
ffôn ffon
gem gêm

glan glân
hun hyn hŷn
i'w yw
melin melyn
mor môr
nac nag

nith nyth
pa pwy
prif pryf
prydau prydiau
sir sur
sudd sydd

tal tâl
tan tân
ti tŷ
ton tôn
tonnau tonau

1. a ac	1. and (+ cytseiniaid) and (+ llafariaid)
2. ac ag	2. and (+ vowel) before a vowel
3. ar a'r â'r	3. on and the with the
4. a â	4. and (+ cytseiniaid) with (+ cytseiniaid)
5. adnabod gwybod	5. to know someone to know something
6. bai bae	6. the blame bay
7. cau cae	7. to shut field
8. Cymraeg Cymreig	8. Yr iaith diwylliant
9. Cymru Cymry	9. y wlad y bobl

10. ei eu	10. unigol - his/her lluosog - their
11. ffôn ffon	11. phone walking stick
12. gem gêm	12. gem/jewel game
13. glan glân	13. on the bank clean
14. hun hyn hŷn	14. own/self this older
15. i'w yw	15. to his/to her/to their is
16. melin melyn	16. mill yellow
17. mor môr	17. so sea
18. nac nag	18. negyddol (+ llafariaid) than (+ vowel)

19. nith nyth	19. niece nest
20. pa pwy	20. which who
21. prif pryf	21. main / head a fly
22. prydau prydiau	22. meals at times
23. sir sur	23. county sour
24. sudd sydd	24. juice that is
25. tal tâl	25. tall payment
26. tan tân	26. until fire
27. ti tŷ	27. you (unigol) house
28. ton tôn	28. wave tone
29. tonnau tonau	29. waves tones

a / ac = and

- A = cyn cytsain (yn achosi treigladau llaes)
- Ci a chath
- Mab a thad

- Ac – cyn llafariad
- Afal ac oren
- Prifysgol ac ysgol

â / ag = gyda

- â/ag = with/by means of (gyda)
- Â = Treiglâd Llaes TCP
- Mynd â chylllell i'r gegin



- Ag – dim treiglâd
- Mynd ag afal yn fy llaw
- Dod ag offer i'r wers



a = rhagenw perthynol

- A = that/which/who
- Treigladd meddal!
- Dyma'r ferch a welais ddoe
- Dyma'r disgybl a oedd yn ddrwg
- Doedd dim o'r hyn a ddywedodd yn wir
- Hepgor yr 'a' – cadw'r treigladd!

na / nac = negyddol

- Na+ cytsain (treigladd llawer)
- Doedd dim merch na bachgen yn bresennol
- Nac + llafariad
- Welais i ddim afal nac oren (neither/nor)
- Gorchymyn: Na phoener!!

na / nag = than

- Na + cystain (treigladd laes)
- Nag + llafariad
- Mae gwaed yn dwymach na dŵr.
- Mae gwynt yn oerach na thân.
- Mae afal yn fwy blasus nag oren.

nid / nad = than

NAD = *That* + negyddol

NID = negyddol yn unig


NAD wyf = *that I'm not*

Nid wyf = *I am not*

ee. Dywedodd hi wrtho ti **nad wyf** yn credu hynny
Nid wyf yn dymuno sefyll yr arholiad.



NAD WYT TI'N = **that** you are **not**/ that you aren't
ee. Dywedodd Sara **nad wyt ti'n** mynd.

Sillafu



Sillafu

Pa lythrennau sy'n dyblu?



DYMA'R **UNIG** LYTHRENNAU SY'N DYBLU YN Y GYMRAEG

Pa eiriau sy'n anghywir?

Cylchgronnau
Pennod
Pennodau
Rhaglenni
Taenlenni
Llwyddianus
Cannoedd
Ysgrifennu
Ysgrifennyddes
Penderfynnu
Peiriannu

Pa eiriau sy'n anghywir? (Atebion)



Cylchgronnau

Pennod

Pennodau

Rhaglenni

Taenlenni

Llwyddianus

Cannoedd

Ysgrifennu

Ysgrifennyddes

Penderfynnu

Peiriannu

Cylchgronau

Pennod

Penodau

Rhaglenni

Taenlenni

Llwyddiannus

Cannoedd

Ysgrifennu

Ysgrifenyddes

Penderfynu

Peiriannu



Dewiswch y ffurfiau cywir ...




1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o (doriadau/dorriadau)
2. Mae'n rhaid i chi 'r penderfyniad (gwestiynnu/gwestiynu)
3. Mae'r sefyllfa yn (anheg/annheg)
4. Wyt ti wedi dod o hyd i'r? (cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

Dewiswch y ffurfiau cywir ...



1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o (**doriadau**/dorriadau)
2. Mae'n rhaid i chi 'r penderfyniad (gwestiynnu/**gwestiynu**)
3. Mae'r sefyllfa yn (anheg/**annheg**)
4. Wyt ti wedi dod o hyd i'r? (**cyfrifiaduron**/cyfrifiadurron)

'i' neu 'u'??



'o' yng nghanol berfenw = 'i' ar y diwedd, e.e. colli, pori

'a' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. canu, taranu

'y' neu 'w' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu

'w' yn agos at ddiwedd berfenw = 'i' yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi

Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag **u**, ac enwau lluosog yn gorffen gydag **i**, e.e. **rhestru** (*to list*), **rhestri** (*lists*)

Acen grom (Y to bach)



PRYD?

BLE?

- Mae to bach ar y llafariaid 'a', 'e', 'o', 'w', 'y' os ydyn nhw'n hir mewn gair unsill sy'n gorffen gyda 'l', 'n' neu 'r', e.e. sêr, pêl, sŵn
- Mae to bach mewn geiriau â mwy nag un sillaf os yw'r pwyslais ar y sillaf olaf, e.e. ar wahân.
- Mae to bach ar lafariad hir mewn gair unsill sy'n gorffen gyda'r cytseiniaid 'p', 't', 'c', 'm', e.e. tîm, plât, grŵp.
- Does dim angen to bach mewn geiriau unsill sy'n gorffen gyda llafariad, e.e. to, te. OND , mae tŷ yn eithriad.

COFIWCH: Mae to ar y tŷ, ond does dim to ar y to!

Ymarfer – Mae angen acen grom ar un gair ym mhob brawddeg

1. Mae hi wrth ei bodd yn mynd i lan y mor.
2. Aeth y pennaeth ynghyd a chadeirydd y cyngor i'r cyfarfod.
3. Roedd y ferch yn hoff iawn o don yr emyn ac enillodd y gystadleuaeth.
4. Wyt ti wedi clywed can newydd y grŵp o Gaernarfon.
5. Roedd yr olygfa yn wych o dwr hen adeilad y sir.

Ymarfer – Mae angen acen grom ar un gair ym mhob brawddeg **ATEBION**

1. Mae hi wrth ei bodd yn mynd i lan y **môr**.
2. Aeth y pennaeth ynghyd â chadeirydd y cyngor i'r cyfarfod.
3. Roedd y ferch yn hoff iawn o **dôn** yr emyn ac enillodd y gystadleuaeth.
4. Wyt ti wedi clywed **cân** newydd y grŵp o Gaernarfon.
5. Roedd yr olygfa yn wych o **dŵr** hen adeilad y sir.

Cymorth wrth ysgrifennu



Geiriadur yr Academi

The Welsh Academy English-Welsh Dictionary Online

Bruce Griffiths, Dafydd Glyn Jones

Cysgliad

*Bellach ar gael am ddim i unigolion
Ewch i www.cysgliad.com i lawrlwytho'r rhaglen.*



- Gwirydd Sillafu a Gramadeg



- Casgliad o eiriaduron electronig

Prif Sgrin Cysgeir




Diagram illustrating the main screen of the Cysgeir software interface, with labels pointing to various components:

- Botwm Ymadroddion Cysylltiedig** (Related Terminology Buttons): Points to the search bar area.
- Bocs Geiriau** (Word Boxes): Points to the left sidebar containing a list of words.
- Rhestr Hanes** (History List): Points to the top navigation bar.
- Gair Blaenorol/Nesaf** (Previous/Next Word): Points to the top navigation bar.
- Chwilio am air** (Search for air): Points to the top navigation bar.
- Porwr Geiriau o'r Gair Hwn** (Word Power from this Word): Points to the top navigation bar.
- Rhestr Eiriau** (Word List): Points to the left sidebar containing a list of words.
- Newid Iaith y Geiriadur** (Change Language of the Dictionary): Points to the top navigation bar.

The interface displays a search result for "dysgu" (learn, school, teach, tutor, train) under the heading "Cymraeg - Saesneg". The results list includes:

- dysgu be** learn, school, teach, tutor, train *Geiriadur CysGair*
- dysgu be** learn *Y Termiadur Ysgol*
- Dysgu trwy gymorth cyfrifiadur be** Computer Aided Learning [CAL], Computer Assisted Learning [CAL] *Geiriadur CysGair*
- achredu dysgu blaenorol be** accreditation of prior learning *Termau Cyllid*
- achredu dysgu blaenorol be** accreditation of previous learning *Termau Gwaith a Gofal Cymdeithasol*
- achredu dysgu blaenorol be** accreditation of prior learning *Y Termiadur Ysgol*
- adnodd dysgu eg** learning resource *Y Termiadur Ysgol*
- anabledd dysgu eg** learning disability *Termau Gwaith a Gofal Cymdeithasol*
- anabledd dysgu eg** learning disability *Termau Hybu Iechyd*
Termau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
Termau Nyrsio a Bydwreigiaeth
Y Termiadur Ysgol
- anabledd dysgu bychan eg** mild learning disability *Termau Nyrsio a Bydwreigiaeth*
- anabledd dysgu difrifol eg** severe learning disability *Termau Nyrsio a Bydwreigiaeth*
Y Termiadur Ysgol

Y Botwm Pori



Mae'r ffenestr hon yn dangos y cysylltiadau rhwng geiriau, ac yn galluogi'r defnyddiwr i weld ymadroddion cysylltiedig a chwilio am gyfieithiadau ohonynt.

Beth yw Cysill?



Gwirio Sillafu, Gramadeg a Thesawrws



Mae **gwirydd sillafu** cyfrifiadurol yn gweithio drwy chwilio am eiriau unigol yn eich dogfen nad yw'n eu hadnabod - hynny yw, geiriau sy ddim yn ei eiriadur mewnol.

Ar ôl oedi ar air o'r fath, bydd y gwirydd sillafu'n awgrymu geiriau o'i eiriadur a all, o bosibl, gael eu cyfnewid am y gair dieithr.

Mae **gwirydd gramadeg** neu arddull yn ceisio adnabod cyfuniadau o nifer o eiriau sy'n dangos strwythur gramadegol neu strwythur arddull arbennig.

Yn y Gymraeg, er enghraifft, rhaid i ansoddair fel 'mawr' dreiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd unigol, fel 'cath'. 'Cath fawr' sy'n gywir ac nid 'cath mawr'. Cyn belled â bod y rhaglen gyfrifiadurol yn gallu adnabod y strwythur hwn yn gywir (sef ansoddair ar ôl enw benywaidd unigol), bydd yn gallu gwneud yn siwr bod yr ansoddair wedi'i dreiglo'n gywir.


Defnyddio Cysill...




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG



- Ap treiglo (am ddim)



Mae'r Ap Treiglo yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd, ac felly nid yw'n gweithio ar fersiynau diweddaraf iOS.

Nod Ap Treiglo ydy cynorthwyo siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wirio'r treigladau. Mae elfen chwilota'r ap dim ond yn cynnwys y geiriau hynny sy'n achosi i'r geiriau sy'n eu dilyn yn syth dreiglo. Felly nid yw'n cynnwys pob rheol treiglo yn y Gymraeg. Ond wrth ddefnyddio elfen adolygu yr ap, dylech allu dod o hyd i'r holl reolau fydd yn eich cynorthwyo i wybod pryd i dreiglo.

Wrth ddefnyddio'r ap hwn, dylech gofio rhai egwyddorion cyffredinol ...

- * Dydy enwau priod (proper nouns) ddim fel arfer yn treiglo – i Dafydd
- * Dim ond enwau lleoedd Cymraeg fydd yn treiglo – o Fryste, ond o Birmingham
- * Fydd enwau sydd wedi eu benthg o'r Saesneg ddim fel arfer yn treiglo e.e. dwy gêm, dau grŵp

Defnyddio Cysill...



Ry'n ni'n gallu defnyddio Cysill mewn un o ddwy ffordd...

1. oddi fewn i'n rhaglen prosesu geiriau – Word /Outlook
2. drwy'r wefan www.cysill.com



Hoffech chi fersiwn o Cysill sy'n:

caniatáu **dysgu** geiriau?


Cymraeg English
Terms and Conditions: (?) | Instructions: (?)

Type or copy paste text into this box, then click the 'Check' button underneath.

WARNING: It is important that you understand, that when you use Cysill Ar-lein, your text is being sent to our server(s) in order to check the spelling and grammar. Cysill Ar-lein retains copies of texts for inclusion into a corpus of texts. The corpus will contribute to academic research, improvements in Cysill and the development of other language technologies in future. You should not use Cysill Ar-lein to check texts that include confidential or sensitive material.

The terms and conditions were last updated on May 22, 2018. Please read through again before starting your use of Cysill Ar-lein.

Clicking on the 'Check' button signifies that you have accepted the terms and conditions.



Dydy Cysill ddim
yn gweithio yn
Word ar
gyfrifiadur Mac.

Cysylltiadau Defnyddiol...

<https://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/tiwtorial-cysgliad.php.cy>

<https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/>

<https://www.cysgliad.com/cy/>

To bach!

Mae [To Bach](https://www.interceptorsolutions.com/tobach) yn rhaglen rhad ac am ddim sy'n gwneud y gwaith o osod acenion a nodau ar gyfer y Gymraeg yn ddidrafferth. Drwy ddefnyddio'r bysell Alt Gr mae modd gosod to bach ar ben y llafariaid (â, ê, î, ô, û, w, y) ac acenion amrywiol (á è ï ac ati).

<https://www.interceptorsolutions.com/tobach>

Bysell	Symbol
alt gr & o	ô
alt gr & A	Â
alt gr & w	ŵ
alt gr & / & e	é
alt gr & " & i	ï

Os ydych chi'n newid iaith eich cyfrifiadur Windows i'r Gymraeg, mae'n galluogi'r to bach ac yn peidio â chywiro'r Saesneg yn awtomatig.

Mae canllaw ar sut i wneud hynny yn:

<https://support.microsoft.com/en-us/office/language-accessory-pack-for-office-82ee1236-0f9a-45ee-9c72-05b026ee809f?ui=en-us&rs=en-us&ad=us>

Llyfrau

